Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Chwefror 2021 am 6.00yh trwy linc fideo ar y wê

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 February 2021 at 6.00pm through video link on the web

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr**/Councillors Clive Davies *(***yn y gadair**/in the chair), John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Siân Maehrlein, Richard Jones, Steffan Morgan, Elaine Evans, Morvenna Richards, Trystan Phillips, Shan Williams, Yvonne O'Neil (**yn rhannol oherwydd anawsterau technegol/**partially due to technical difficulties), Dave Parkinson (*Tivy-Side*), Llinos Haf Jones (**Cyfiethydd**/Translator) Eleri Maskell (**Clerc**/Clerk).

1. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absonoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Y Cyng/Cllrs Wyn Jones, Debra Griffiths.

2. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	*Materion cynllunio*/ Planning matters
Y Cyng / Cllr Elaine Evans	*Cais cynnlunio* A201080 Planning Application
Y Cyng / Cllr Steffan Morgan	*Gohebiaeth rhif* / Correspondence Number 301

3. Cyflwyniad gan Mr Peter Williams

Trafodaeth am Rhyngrwyd o Pethau, a sut y gall hyn helpu trefi fel Aberteifi, a sut y gall Aberteifi adeiladu ar y gwaith arloesol a gyflanwyd yn barod.

Arweiniodd trafodaeth rhwng y Cynghorwyr yn dilyn y cyflwyniad, at gynnig i brynu dangosfwrdd i ddatblygu Rhyngrwyd Pethau ymhellach ar gost o £36 y mis. Cymeradwywyd y cynnig yn llawn gan bawb, cytunodd y Cyng Clive Davies i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Presentation by Mr Peter Williams

Discussion about the Internet of Things and how this can help towns like Cardigan, and how Cardigan can build on the innovative work already accomplished.

A discussion between the councillors following the presentation, led to a proposal to purchase a dashboard to further develop the Internet of Things at a cost of £36 per month. The proposal was fully approved by all, Cllr Clive Davies agreed to make the necessary arrangements.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 5 Ionawr 2021.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 5 January 2021.

Tudalen 1690 7. Cynllunio

Gofynnodd y Cyng Graham Evans y dylid nodi bod y sylw ynghylch Cais Cynllunio A201007 (Maes parcio Heol Morgan) yn "ôl-weithredol" yn anghywir, nid oes unrhyw waith wedi cychwyn ar y safle hwn.

Page 1690 7. Planning

Cllr Graham Evans requested that it be minuted that the comment regarding Planning Application A201007 (Morgan Street car park) to be "retrospective" was incorrect, no work has begun on this site.

Cynigiwyd gan y Cyng Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng Graham Evans bod cofnodion cyfarfod 5 Ionawr yn gywir.

Cllr Yvonne O'Neill proposed that the 5 January council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

5. Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd mewn pwyllgor nos Fawrth 12 Ionawr 2021.

Minutes of Council Budget Meeting

To approve and sign minutes of the meeting held in Committee on Tuesday 12 January 2021.

Cynigiwyd gan y Cyng John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng Siân Maehrlein bod cofnodion cyfarfod 12 Ionawr yn gywir.

Cllr John Adams-Lewis proposed that the 12 January council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Siân Maehrlein.

6. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Ionawr 2021.

a) **Hysbysodd Y Cyng Richard Jones yr RNLI a Gwylwyr y Glannau fod y llithrfa oddi ar Gloster Row, Aberteifi wedi cael ei rhwystro gan 8 bag tywod mawr fel rhagofal llifogydd ac nad oes mynediad bellach i Afon Teifi o'r llithrfa hon.**
b) **Rhoddwyd cyfarwyddyd i Anvil Fabrication i fwrw ymlaen â'r gwaith atgyweirio i ffens gefn y Man Chwarae Amlbwrpas ac i symud y iet i ochr y cwad (dal i aros am ddadansoddiad o'r gost). Clerc i archebu bwrdd cefn Pêl-fasged newydd.**
c) **Mae'r Clerc yn gwahodd tendrau i'r gwaith ffensio gael ei wneud yn maes Brenin Siôr V, gan ddisgwyl i'r gwaith gael ei wneud dros yr haf. Bydd y Clerc yn gwneud cais am grantiau i gefnogi'r costau.**
d) **Cais i brynu sleid Gobo newydd – calon enfys y GIG am £219.60:**
Cafodd cais i brynu sleid Gobo newydd – calon enfys y GIG am £219.60 ei gymeradwyo gan y Cynghorwyr.

e) I benderfynu a ddylid gosod beiciau "Ar Dy Feic" y tu mewn neu tu allan i faes chwarae Brenin Siôr V, gohebiaeth rhif 320:
Penderfynwyd gofyn i Adventure Playgrounds Wales i lunio cynllun gyda'r 3 beic llonydd yn y maes chwarae ac nid y tu allan.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 5 January 2021.

a) Cllr Richard Jones informed the RNLI and the Coastguard that the slipway off Gloster Row, Cardigan has been blocked by 8 large sandbags as a flood precaution and there is no longer access to the River Teifi from this slipway.
b) Instruction has been given to Anvil Fabrication to proceed with the repair to the back fence of the Multi-Purpose Play Area and to move the door to the side of the quad (waiting for breakdown of the cost). Clerk to order a new Basketball back board.
c) Clerk is inviting tenders for the fencing work to be carried out at King George V, expecting the work to be done over the summer. Clerk will apply for Grants to support the costs.
d) Request to purchase a new Gobo slide – NHS rainbow heart for £219.60:
The request to purchase a new Gobo slide – NHS rainbow heart £219.60, was approved by the Councillors.
e) King George V play area, to decide whether to place the "Ar Dy Feic" bikes inside or outside the play area, correspondence number 320:
It was resolved to ask Adventure Playgrounds Wales to draw up a plan with the 3 stationary bikes within the play area and not outside.

7. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Dim eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

No items to be taken in private session.

8. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

Rhif y Cais / App. No.	*Cyfeiriad* / Address	*Y Bwriad* / Proposal	*Sylwadau* / Comments
A201080	*Tir ar Sryd y Cei a Thir y Farchnad, Aberteifi* / Land at Quay Street and Market Land, Cardigan.	*Amrywio amod 1 (dyddiad cychwyn) y caniatâd cynllunio A180465.* Variation of condition 1 (commencement date) of planning permission A180465.	*Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn, fodd bynnag, oherwydd yr estyniadau niferus a roddwyd dros y 10 mlynedd diwethaf, ni fydd y cyngor yn cefnogi ceisiadau pellach o'r math hwn eto* / The council has no objection to this application, however, due to the numerous extensions given over the last 10 years, the council will not support further requests of this nature again.

A201079	*Plot 33 a 34 Maesydderwen, Aberteifi, SA43 1PE*	*Gwared/Amrywio amod 2 (cynlluniau cymeradwy) o ganiatâd cynllunio.* Removal/Variation of condition 2 (approved plans) of planning permission.	*Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn* / The council has no objection to this application.

9. <u>Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi/</u> Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid

Dyddiad / Date	*Disgrifiad / Description*	*Côd / Code*	*Rhif y Siec Cheque No.*	*Swm (TAW) / Sum (VAT)*
01/02/21	Tai Aberteifi Ltd.: *Rhent Swyddfa'r Cyngor* / Rent of Council Office (*Chwefror*/February). *Band Lydan (Chwefror)* / Broadband (February)	A9 A20	D/D 5006	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
02/02/21	*Cyflog y Clerc* / Clerk's Salary (*Ionawr*/January)	A5	5007	£1119.53(0.00)
02/02/21	*Bachan Deche* / Handyperson (*Ionawr*/January)	A19	5008	£151.20(25.20)
16/01/21	*Gwasanaeth Cyfieithu* / Translation Service	A18	5009	£105.00(0.00)
19/01/21	Zoom – Webinar fee, one month	A20	5010	£38.40(6.40)
31/12/20	M&E Pearce	C6	5011	£39.47(6.58)
11/01/21	Emlyn Cafe – Ciniawau Nadolig/Christmas Dinners	D14	5005	£510.00(0.00)
19/12/20	BT – *Anfoneb ffon* / Phone bill	A20	5012	£129.99 (15.00)
08/01/21	Justin Percival – *Treuliau goleuadau Nadolig* / Christmas lights expenses.	B1	5013	£50.00 (0.00)
05/01/21	*Archwilio Cymru* / Audit Wales	A13	5014	£316.25(0.00)
12/01/21	*Cware Pantgwyn* Quarry - Large Sand Bags	C11	5015	£322.00(52.00)
04/01/21	Robert Eynon & Son Ltd – Pipe for Gobo	C2	5016	£24.00(0.00)
31/12/20	TJB Electricals Ltd – *Goleuadau Nadolig/*Christmas Lights	B1	5017	£1560.00(260.00)

Cynigodd y Cyngor bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.
The Council proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

9/12/2020	Lloyds Bank: *Llog* / Interest	£0.54
14/12/2020	Western Power Distribution Grant	£600.00

b) Gohebiaeth / Correspondence

	Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read	*Sylwadau / Comments*
294	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – *Rhybudd sgam brechlyn* / Vaccine Scam Alert	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 05/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 05/01/2021.
295	Malgwyn Evans – *Clwb Bowlio/*Bowling Club: *Tynnu cais am gyfnod di-rent yn ôl* / Withdrawal of request for a rent free period.	*Ni ofynnir am rent am chwe mis cyntaf 2021. Ailystyrir y sefyllfa ym mis Gorffennaf. Y Clerc i hysbysu'r clwb o'r penderfyniad hwn* / No rent will be requested for the first six months of 2021. The situation will be

		reconsidered in July. The Clerk to inform the club of this decision.
296	Mererid Jones*, Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol GIG /* NHS Highly Specialist Speech and Language Therapist: *Bwrdd Cyfathrebu* / Communication Board.	*Mae'r cais i fyrddau cyfathrebu gael eu gosod ar meysydd chwarae Brennin Siôr a Oebtio wedu'i dderbyn.* The request for communication boards to be placed in the King George and Pentop playing fields has been accepted.
297	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Harolwg – Eich tref, eich dyfodol! /* Survey – Your town, your future!	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 11/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 11/01/2021.
298	Dafydd Llywelyn -*Comisiynydd yr Haddlu a Throseddu* Police and Crime Commisssioner Dyfed Powys: *Cylchlythyr Ionawr* / January newsletter.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 11/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 11/01/2021.
299	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/*WLGA coronavirus update.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 13/01/2021.
300	Cardi shed: *Adnodd newydd i ddynion /* A new resource for men.	*Mae'r Cyng Richard Jones yn delio â'r prosiect newydd hwn /* Cllr Richard Jones is dealing with this new project.
301	Hefin Harries, *Clwb Rygbi Aberteifi/*Cardigan Rugby Club: *Cyfrifon y clwb /* Club accounts.	*Ni ofynnir am rent am chwe mis cyntaf 2021. Ailystyrir y sefyllfa ym mis Gorffennaf. Y Clerc i hysbysu'r clwb o'r penderfyniad hwn* / No rent will be requested for the first six months of 2021. The situation will be reconsidered in July. The Clerk to inform the club of this decision.
302	Olwen Davies, Gloster Row, Aberteifi: B*agiau tywod ar y cei/* Sandbags on the quay.	*Clerc i ddanfon e-bost i egluro barn y Cynghorwyr /* Clerk to explain the Councillors' opinion by e-mail.
303	Deio Jones – *Cyfarwyddwr a Phrif Ymgynghorydd ar y prosiect Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol /* Director and Principal Consultant on Climate Change and Natural resources project.	*Ymchwilio am dir cyhoeddus y gellid ei agor i'r cyhoedd.* Researching for public land which could be opened to public access. *Cyngor i seflydlu Is-bwyllgor /* Council to set up a Sub Committee.
304	Sarah Johnson, *Gweithdy* Huts Workshop:	*Hysbysebu eu gwasanaeth ffôn wythnosol i ddiogelu materion iechyd meddwl /* Advertising their weekly telephone service to safeguard mental health issues.
305	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Fforwm cynghori gweinidolgol ar heneiddio /* Ministerial advisory forum on ageing.	*Hyfforddiant a chefnogaeth am ddim i weithwyr rheng flaen /* Free training and support for frontline workers.
306	*Llywodraeth Cymru – Ymgyrch Cadw Cymru yn Saff /* Welsh Government – Keep Wales Safe Campaign.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 20/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 20/01/2021.
307	Olwen Davies, Gloster Row, Aberteifi: *Diflaniad y postyn carthffosiaeth /* Disappearance of the sewage outfall post.	*Clerc i fynegi gwerthfawrogiad am hysbysu Dŵr Cymru /* Clerk to express appreciation for notifying Welsh Water.
308	Wendi Patience – *Un Llais Cymru /* One Voice Wales: *Lleoedd rhad ac am ddim ychwanegol ar ein modylau craidd* / Additional free places available on our core modules.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 22/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 22/01/2021.
309	Joan Lockett – *Partneriaethau Llywodraeth Leol, Y Grwp Addysg a Gwasanaethau Cyhoedus, Llywodraeth Cymru /* Local Government Partnerships, Education and Public Services Group, Welsh Government.	*Cysylltu â'ch cymuned leol - Canllaw cyfathrebu i Gynhorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod /* Connecting with your local community – A communications guide for Welsh Community & Town Councillors and their Clerks.
310	Gari Jones*, Peiriannydd – Diogelwch a theithio Llesol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol CSC /* Engineer-	*Ceisiadau grant cronfa teithio gweithredol, mae'r clerc wedi anfon llythyr o gefnogaeth /* Active Travel Fund

	Safe and Active Travel, Highways and Environmental Services CCC.	Grant Applications, the Clerk has sent a letter of support.
311	Daisy Sherwood, Sherwood Forestry – *Cynllun plannu creu coedwig Glastir /* Glastir Woodland Creation Planting Scheme.	*Gwybodaeth ar gyfer cynllun plannu arfaethedig yn Fferm Penlan, Aberteifi /* Information for a proposed planting scheme at Penlan Farm, Cardigan.
312	Meleri Richards – *Cydlynydd Cymunedau Gwledig, Economi ac Adfywio CSC /* Rural Communities Coordinator, Economy and Regeneration CCC.	*Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Economaidd Ceredigion – Hybu Economi Ceredigion: Strategaeth i weithredu 2020-35/* Cosnultation on Ceredigion Economic Strategy – Boosting Ceredigion's Economy: A strategy for action 2020-35.
313	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – *Rhybudd twyll negesydd /* Courier fraud Warning.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 25/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 25/01/2021.
314	*Y Cyng/*Cllr Elaine Evans – *cais gan preswylydd am fin cŵn arall ar Rhodfa'r Felin /* Request from resident for another dog bin on Rhodfa'r Felin.	*Clerc i ofyn i CSC am fin arall, pen Heol Gwbert o Rhodfa'r Felin* / Clerk to request another bin the Gwbert Road end of Rhdofa'r Felin.
315	Alwyn Roberts – *Pennaeth Gweithred Cymunedol, Eisteddfod Genedlaethol Cymru /* Head of Community Delivery, National Eisteddfod of Wales.	*Datganiad gohirio Eisteddfod Ceredigion am flwyddyn bellach /* Press release about the decision to postpone the Ceredigion Eisteddfod for a further year.
316	*CSC /* CCC : *Manylion Taliad /* Remittance Advice – *Grant Cae Brennin Siôr V /* King George V Grant £7629.00	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 27/01/2021.
318	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – *Rhybudd sgam brechlyn, amrywiad newydd /* Vaccine Scam Alert, new variant.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 27/01/2021.
319	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/*WLGA coronavirus update.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27/01/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 27/01/2021.
320	Dave Stevenson Adventrue Play Wales (*gweler adroddiad y Clerc/*See the clerk report)	*Gofyn am cynllun gyda'r beiciau ychwanegol y tu mewn i'r parc chwarae /* Request a plan with the additional bikes inside the play area.
321	Tracy Gilmartin-Ward *Un Llais Cymru* / One Voice Wales – *Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/*WLGA coronavirus update.	*Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 01/02/2021.* For your information. Forwarded to all councillors on 01/02/2021.
322	*Y Cyng/*Cllr Elaine Evans – *Llanast cŵn /* Dog mess.	*Esiamplau o arwyddion ar gyfer palmentydd /* Examples of signs for pavements
323	*Y Cyng/*Cllr Elaine Evans – *Ymateb o CSC ynglŷn a maes parcio y Canolfan iechyd yn canol dref /* Response from CCC to enquiry regarding the Health Centre Car Park in the town center.	*Ni wnaed unrhyw benderfyniadau ynghylch dyfodol y maes hon /* No decisions have been made regarding the future of this site.
324	Rory Francis, Resources for Change Consultants*: Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion /* Ceredigion Public Services Board's Climate Change and Natural Resources Project Group.	*Ymchwilio am dir cyhoeddus y gellid ei agor i'r cyhoedd.* Researching for public land which could be opened to public access. *Cyngor i seflydlu Is-bwyllgor /* Council to set up a Sub Committee.
325	Robert Jenkins*, Pennaeth* /Headmaster Ysgol Bro Teifi: *Gosod Gweledigaeth /* Setting a vision.	*Holiadur am barn y gymuned ehangach am cyfeiriad addysgiadol yr ysgol dros y ddegawd nesaf /* Questionnaire for the school's wider community on their educational direction for the next decade.
326	*Y Cyng/*Cllr Yvonne O'Neill: *Bagiau tywod ar y cei* / Sand Bags on the quay.	*Pryderon am y bagiau tywod ar y cei /* Concerns about the sandbags on the quay.

327	Eisteddfod yr Urdd: *Cais am gymorth ariannol /* Application for financial support.	*I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.* To be discussed at the March Grants Sub-committee.

c) Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Elusen Cae Chwarae Brennin Siôr / Minutes of the King George V Playing Field Charity Committee Meeting.

1/21/3 b)

Cais am osod llwybr troed wedi'u seilio ar rwber ar hyd llinell gyffwrdd isaf y cae pêl droed. Cefnogodd y Cynghorwyr y cais hwn ym amodol ar gymeradwyaeth cynllunio.

Request to install rubber-based footpath along the lower touchline.

The Councillors supported this request subject to planning approval.

1/21/3/c)

Hysbysfyrddau ar y ffens o amgylch y cae pêl-droed.

Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo defnyddio hysbysfyrddau hysysebu dros dro fel math o incwm ar y dwy ffens o amgylch y caeau pêl-droed a rygbi. Fodd bynnag, bydd arwyddion a osodir ar y ffens ar Ffordd Aberystwyth yn cael eu tynnu os na chafwyd caniatâd gan y Cyngor Tref.

Advertising hoardings on the fence around the football field.

The council resolved to approve the use of temporary advertising hoardings as a form of income on both fences around the football and rugby pitches. However, signs placed on the fence on Aberystwyth Road will be removed if permission from the Town Council has not been obtained.

d) Adolygiad yr Asesiad Risg, Strategaeth Buddsoddi, Rheoliadau Ariannol. Copiau wedi ei flaenyrru drwy e-bost, 26/1/21 (cadwch yn eich ffeil, os gwelwch yn dda).

Review of the Risk Assessment, Annual Investment Strategy, Financial Regulations. Copies forwarded by e-mail on 26/1/21 (please keep on file).

Cymeradwywyd atodiad yr Asesiad Risg, Strategaeth Buddsoddi a'r Rheoliadau Ariannol gan y cyngor ac arwyddwyd gan y Maer, y Cyng Clive Davies.

The Risk Assessment, Annual Investment Strategy and the Financial Regulations were approved by the council and signed by the Mayor, Cllr Clive Davies.

10. <u>Eitemau er gwybodaeth yn unig /</u> <u>Items for information only</u>

a) Adroddiad y Maer

i. Newyddion da o Pwll Nofio Aberteifi, dyfarnwyd y grant dichonoldeb o'r Cynnal y Cardi;
ii. Cae Chwarae Brenin Siôr Ved, man chwarae plant, cynllunio diwethaf, gwaith i'w gwblhau erbyn y Pasg;
iii. Cyfarfodydd parhaus gyda rhanddeiliaid yn y dref ynghylch â Wales and West Development a gohebiaeth;
iv. Trosglwyddwyd gwybodaeth i'r Cynghorwyr Sir am bryderon ac ymholiadau a godwyd gan ddinasyddion Aberteifi;
v. Prynu ymgyrch leol - 100% Aberteifi, wedi cyrraedd dros 11,500 o bobl ar gyfryngau cymdeithasol – hyrwyddo 60 o siopau Aberteifi sy'n gweithredu ar-lein;
vi. Cyfarfod â'r datblygwr newydd ar gyfer uwchraddio App Tref Aberteifi ar gyfer tymor 2021;
vii. Drafft terfynol y cynllun lle;
viii. Mynychwyd gyfarfod â Cysefin Cymru ar ddatblygu canol tref Aberteifi;
ix. Mynychwyd gyfarfod gyda chymuned fusnes Llandysul ar syniadau ar gyfer eu tref;
x. Darparu gwybodaeth i fusnesau tref Aberteifi ar grantiau Coronafirws;

a) Mayors' Report

i. Good news from Cardigan Swimming Pool, the feasibility grant from Cynnal y Cardi has been awarded;
ii. King George V play area, final planning, work to be completed by Easter;

iii. Ongoing meetings with stakeholders in town regarding Wales and West development and correspondence;
iv. Sign posting to relative County Councillors concerns and queries raised by Cardigan citizens;
v. Buy local Campaign - 100% Cardigan – reached over 11,500 people on social media – promoting 60 Cardigan shops operating online;
vi. Meeting with new developer for upgrading Cardigan Town App in time for 2021 season;
vii. Final Draft of Place Plan;
viii. Attended meeting with Prime Cymru on development of Cardigan Town centre;
ix. Attended meeting with Llandysul business community on ideas for their town;
x. Provided information to Cardigan Town businesses on Coronavirus grants;

b) **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir /** Reports from County Councillors

Y Cyng John Adams-Lewis Ward Mwldan

i. Diolch i'r Cynghorwyr hynny, a wnaeth ymateb i gais Gari Jones, CSC, am air o gefnogaeth i'w gais i'r Cynulliad am arian grant - parthed y Gronfa Teithio LLesol. Y bwriad, fel y gwelwyd yn y cynlluniau, yw gwneud gwelliannau yn nifer o fannau yn Aberteifi - yn cynwys Heol Gwbert, Rhoda'r Felin, Maesyrhaf, cwblhau'r droedffordd rhwng Heol Caemorgan a Phenparc a'r droedffordd rhwng y dref a Llandudoch. Gobeithio bydd y cais yn llwyddiannus - cawn wybod erbyn tua diwedd mis nesaf.
ii. Diweddariad ar y model o orsaf y rheilffordd, Aberteifi: Yn barod i'w gasglu, Y Cyng Clive Davies i ofyn am ganiatâd i arddangos y model yn y castell.

Cllr John Adams-Lewis Mwldan Ward

i. Thank you to those Councillors who responded to the request from Gari Jones, CCC, for letters of support for the application to the Assembly for the Active Travel Fund grant. The plans show the intention to improve several areas in Cardigan including Gwbert Road, Rhodfa'r Felin, Maesyrhaf, completion of the footpath between Caemorgan Road and Penparc and the footpath between town and St Dogmaels. Hopefully the application will be successful, we will know by the end of next month.
ii. Update on the model of the railway station, Cardigan: Ready to be collected, Cllr Clive Davies to ask for permission to place the model on display in the Castle.

Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi

i. LLIFOGYDD: wedi clywed gan Gyfoeth Naturiol Cymru eu bod wedi cyflwyno Cynllun Busnes Amlinellol (OBC) am Gynllun Atal Llifogydd Aberteifi i'r Bwrdd fis Rhagfyr 2020 a chafwyd ymateb ffafriol iddo. Wedi rhai mân newidiadau, disgwylir iddo gael ei gymeradwyo'n fuan, cyn datblygu'r cynllun ymhellach a gweithio ar ddylunio'r prosiect eleni a galluogi adeiladwaith yn 2022/2023. Mae'r asiantaeth wedi gofyn am gyfarfod buan gyda fi i drafod materion tymor-byr a hir-dymor yn ymwneud a llithrfan Gloster Row. Yn y cyfamser, gosodwyd 8 o fagiau mawr swnd ar y llithrfan ac y mae'r rhan helaeth o'r trigolion yn eu croesawu. Llanw uchel eto rhwng dydd Sadwrn a bore dydd Llun nesaf.
ii. YSGOLION: Disgwyl datganiad dydd Gwener yma ynglyn a threfniadau wedi hanner tymor.

iii. **BRECHLUN COVID: rhaglen yn rolio mas ledled Ceredigion. Ffodus bod gennym y 2 Ganolfanyn gweithredu'n Aberteifi. Disgwyl bod pawb 75-79 wedi cael apwyntiad.**

iv. **SBWRIEL: wedi ail-sefydlu ar ôl anhawsterau dros gyfnod y Nadolig.**

v. **SUSTRANS: cafodd ceisiadau "Active Travel" (yn cynnwys Heol Llandudoch) eu cyflwyno dydd Gwener 29 Ionawr a diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u llythyron.**

vi. **Grŵp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, gohebiaeth rhif 303 a 324.**

Cllr Catrin Miles Teifi Ward

i. FLOODING: Heard from NRW that the OBC for a Cardigan tidal flood scheme was presented to the Flood Risk Board prior to Christmas and well-received. After minor adjustments, the hope is that it will receive full financial approval, aiming for design works during 2021 with construction later in 2022 or 2023. NRW have also invited me to a meeting soon to discuss short and long-term plans for the Gloster Row slipway. In the meantime, 8 giant sand-bags have been welcomed by the vast majority of residents in that area. High tides expected again Saturday 30th to the morning of Monday 1st Feb.

ii. SCHOOLS: Announcement due next Friday regarding arrangements after half-term.

iii. COVID VACCINE: programme rolling out through Ceredigion and we're fortunate to have 2 centers here in Cardigan. All 75-79 year olds should have an appointment by now.

iv. REFUSE COLLECTION: all back to normal routine after the Christmas period.

v. SUSTRANS: Active Travel applications (including St Dogmaels Road) were submitted last Friday 29th Jan. Thanks to everyone for their letters and support.

vi. Ceredigion Public Services Board's Climate Change and Natural Resources Project Group, correspondence number 303 and 324.

Y Cyng Elaine Evans Ward Rhyd-y-fuwch

i. **Llanast cŵn ar ein strydoedd** – **anfonwyd pryderon ymlaen i CSC.**

ii. **Wedi anfon cais i Clic i adael bagiau ailgylchu y tu allan i'r llyfrgell**.

iii. **Cysgodfa beic arfaethedig y tu allan i Theatr Mwldan** – Active Travel Grant**. Y Cyng Evans i gysylltu a CSC i gael y manylion am union leoliad y cysgodfa beic oherwydd pryderon gan Theatr Mwldan.**

Cllr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch Ward

i. Dog mess on our streets – concerns have been forwarded to CCC.

ii. Sent a request to Clic to leave recycling bags outside the library.

iii. Proposed bike shelter outside Theatre Mwldan – Active Travel grant proposal. Cllr Evans will contact CCC for the details of the exact location of the bike shelter due to concerns from Theatre Mwldan.

c) **Adroddiad y Bachan Deche /** Handyperson's Report

i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed /** King George 5th Children's Play Area
Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/** Multi-purpose play area and Tennis Courts.

Mae'r gwaith atgyweirio i'r ffens gefn yn y broses o gael ei drefnu / Repair work to the back fence being in the process of being arranged.

iii. **Maes Sgrialu /**Skateboard Park
Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

iv. **Cyffredinol /** General
Wedi derbyn sawl ymholiad ynglŷn â thynnu'r goeden Nadolig i lawr. Gobeithio y gallwn ei gyflawni yn ystod y pythefnos nesaf / Received several queries regarding the removal of the Christmas tree. Hopefully we can get it done in the next two weeks.

11. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf
Items for the next Agenda

Gorffennodd y Maer y cyfarfod trwy ddatgan mai hwn oedd y tro olaf i Dave Parkinson, newyddiadurwr y Tivyside, fod yn bresennol. Mae Dave yn ymddeol o'i swydd ac roedd y Gynghorwyr yn unfrydol wrth ddymuno pob lwc a dyfodol hapus iddo. Roeddent yn dymuno anrhydeddu ei ymrwymiad i gyfarfodydd y Cyngor dors y blynyddoedd trwy ddyfarnu Tarian y Dref iddo mewn perthynas â'i wasanaethau.
The Mayor concluded the meeting by declaring it to be the last time for Dave Parkinson, Tivyside journalist to be in attendance. Dave is retiring from his position and all the Councillors were unanimous in wishing him good luck and a happy future. They wished to honour his commitment to the council meetings over the years by awarding him with the Town Shield in respect of his services.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh.
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.45pm.

*Arwyddwyd/*Signed ..... *(Cadeirydd/*Chairperson) *Dyddiad/*Date .....